# Arolygiad o dan Adran 28

**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Gynradd Rhosgadfan**
**Rhosgadfan**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL54 7EU**

**Rhif yr Ysgol: 6612098**

**Dyddiad yr Arolygiad: 26/04/10**

**gan**

**William Edward Williams**
**67644**

**Dyddiad Cyhoeddi: 30/06/10**

**O dan rif contract Estyn: 1119109**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

99 Mae cynllun gweithredol ar gyfer datblygu ABCh sy'n cael ei integreiddio i holl waith yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr er mwyn cyfoethogi'r profiadau dysgu.

100 Tystia'r ethos gofalgar a grëir yn yr ysgol i'r pwyslais a osodir ynddi ar ddatblygiad ysbrydol a moesol, diwylliannol a chymdeithasol y dysgwyr. Mae darpariaeth amser cylch a sesiynau addoli ar y cyd yn hyrwyddo'r agweddau hyn mewn modd sensitif sy'n galluogi'r dysgwyr i drafod materion o bwys iddynt yn yr ysgol. Bodlona trefniadau addoli ar y cyd y gofynion statudol yn llawn.

**Addysg grefyddol**

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 3 – Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 3 – Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

**Nodweddion da**

191 Mae plant y cyfnod sylfaen yn ymddiddori yn eu hunain, eu teuluoedd pobl eraill a rhyfeddodau'r byd o'u cwmpas. Datblygant ddealltwriaeth dda o draddodiadau diwylliannol a chrefyddol Cymru ac maent yn gyfarwydd iawn â nifer o hanesion o'r Beibl. Trwy gyd-chwarae, dônt yn fwyfwy ymwybodol o deimladau eu hunain a sylweddolant sut y gall eu gweithrediadau hwy effeithio ar eraill.

192 Yn y ddau gyfnod allweddol mae gan fwyafrif o'r disgyblion ysbryd ymchwilgar ac maent yn teimlo'n hyderus i godi cwestiynau o'u profiad personol .

193 Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 yn trafod egwyddorion megis cyfeillgarwch, gofal dros eraill ac ymddygiad tuag at ei gilydd mewn ffordd ystyrlon ac agored. Mae ganddynt beth gwybodaeth o gymeriadau yn y Beibl.

194 Ar draws y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd gweddi. Ysgrifennant weddïau personol ac maent yn eu darllen yn ystod cyfnodau addoli ar y cyd.

195 Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn deal pwysigrwydd arferion a thraddodiadau i gredinwyr. Mae ychydig ohonynt yn trafod crefyddau megis Hindŵaidd, Iddewiaeth a Christnogaeth yn ddeallus.

196 Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd mewn addoldai megis capeli, eglwysi a synagog ac mae'r mwyafrif yn trafod eu nodweddion a'u pwrpas yn feddylgar.

**Diffygion**

197 Nid yw ymwybyddiaeth disgyblion cyfnod allweddol 1 o grefyddau'r byd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

198 Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 o draddodiadau, termau a symbolau crefyddau amrywiol yn gyfyng.

199 Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i drafod a mynegi barn ar ddigwyddiadau yn y Beibl yn ogystal â thrafod materion megis, cariad, maddeuant a chydwybod yn gyfyngedig.